Anna Brychan AS/MS
Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg
Cabinet Minister for Education and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref AB/05704/26

Cyng. Elin Walker Jones
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd
AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

30 Medi 2026

Annwyl Gyng. Elin Walker Jones,

Diolch am eich llythyr ac am yr arweinyddiaeth y mae Cyngor Gwynedd wedi'i dangos wrth hyrwyddo a diogelu enwau lleoedd Cymraeg. Mae'r gwaith hwnnw wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd fel rhan o'n treftadaeth ieithyddol a diwylliannol, ac wedi cyfrannu'n sylweddol at y drafodaeth genedlaethol ar y mater. Rwy'n rhannu'n llwyr eich ymrwymiad i sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu parchu a'u diogelu er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae rôl yr Arolwg Ordnans wrth gofnodi a chyflwyno enwau lleoedd Cymru yn bwysig, ac mae'n briodol bod ei bolisïau a'i arferion yn destun trafodaeth a chraffu cyhoeddus. Rwy'n deall pryderon y Cyngor am y ffordd y mae'r Arolwg Ordnans yn ymdrin ag enwau lleoedd Cymraeg, ac yn croesawu ymgysylltiad y Cyngor â'r sefydliad.

Mae'n galonogol bod yr Arolwg Ordnans wedi dangos parodrwydd yn ddiweddar i weithio gyda phartneriaid yng Nghymru ar faterion yn ymwneud ag enwau lleoedd. Mae ei waith gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chomisiynydd y Gymraeg yn enghraifft gadarnhaol o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio, ac yn dangos bod modd sicrhau newid pan fo tystiolaeth glir a chefnogaeth leol gref. Enghraifft ddiweddar yw penderfyniad yr Arolwg Ordnans i ychwanegu'r enw *Cwt Dafydd Ross* i'w gronfa ddata, yn dilyn gwaith lleol i hyrwyddo'r enw a'i ddilysu gan y Parc Cenedlaethol.

Mae fy swyddogion yn trafod yn gyson gyda'r Arolwg Ordnans er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac o'r pryderon a fynegwyd gan gymunedau a sefydliadau yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r berthynas waith honno i geisio cynnydd pellach wrth hyrwyddo a diogelu enwau lleoedd Cymraeg. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg hefyd berthynas waith gadarn gyda'r sefydliad, ac mae polisi enwi Cymraeg yr Arolwg Ordnans yn cydnabod rôl y Comisiynydd mewn perthynas ag orgraff enwau lleoedd Cymraeg.

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Anna.Brychan@llyw.cymru
Correspondence.Anna.Brychan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn rhoi'r cyd-destun llawn, mae'r Arolwg Ordnans yn gwmni sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth y DU, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol drosto na phwerau i gyfarwyddo ei benderfyniadau. Serch hynny, rydym yn parhau i ddefnyddio ein dylanwad a'n perthynas â'r sefydliad i hyrwyddo ein safbwynt ac i annog arferion sy'n adlewyrchu pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg.

Er bod mapiau'r Arolwg Ordnans yn bwysig, mae'r ffordd y mae pobl yn dod ar draws enwau lleoedd heddiw yn llawer ehangach. Mae llwyfannau mapio a chyfryngau cymdeithasol mawr yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth lywio dealltwriaeth pobl o enwau lleoedd. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chwmnïau technoleg i gryfhau cefnogaeth i'r Gymraeg yn y maes hwn. Mae'n cefnogi mentrau fel Mapio Cymru, sy'n helpu i sicrhau bod ffynonellau dibynadwy a chyfoes o enwau lleoedd Cymraeg ar gael ac yn cael eu defnyddio'n ehangach ar draws y dirwedd ddigidol. Drwy alluogi unigolion a chymunedau i gyfrannu enwau, a thrwy integreiddio data o brosiectau fel Wikidata a'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol, mae Mapio Cymru yn cryfhau presenoldeb y Gymraeg yn y dirwedd ddigidol ac yn helpu i ddiogelu hunaniaeth ieithyddol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adnoddau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer camau pellach gan Lywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, maent yn cynnwys toreth o enwau Cymraeg a hanesyddol o bob rhan o Gymru – mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yn unig yn cynnwys tua 722,000 o gofnodion. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddatblygu polisïau ac ystyried mesurau deddfwriaethol a fydd yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg.

I grynhoi, mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan annatod o'n treftadaeth, ein hiaith a'n hunaniaeth fel cenedl. Rwy'n gwerthfawrogi'r arweinyddiaeth y mae Cyngor Gwynedd wedi'i dangos wrth dynnu sylw at y materion hyn, ac yn cydnabod cyfraniad sylweddol y Cyngor i warchod treftadaeth enwau lleoedd yn y gogledd. Yn ogystal â pharhau i ymgysylltu â'r Arolwg Ordnans a phartneriaid eraill, rydym yn ystyried sut y gallai mesurau ychwanegol, gan gynnwys deddfwriaeth, gryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg yn y dyfodol.

Yn gywir,



Anna Brychan AS/MS
Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg
Cabinet Minister for Education and the Welsh Language